Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r daflen ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae gan Gynghorau amrediad eang o ddyletswyddau a phwerau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned a rhaid iddynt weithio gyda chyrff eraill fel yr heddlu i geisio datrys problemau o'r fath. Fel landlordiaid, mae gan Gynghorau a chymdeithasau tai ddyletswyddau penodol i ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr eiddo a reolir ganddynt. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys gormod o sŵn, harasio, cam-drin geiriol, bygythiadau a fandaliaeth.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall edrych i weld a oes unrhyw beth o'i le gyda'r ffordd y deliodd y cyngor neu'r gymdeithas dai â chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall hyn gynnwys:

- methu cael gweithdrefnau priodol yn eu lle i roi arweiniad i staff ar sut i gofnodi, ymchwilio i a monitro achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- methu egluro i bobl sy'n cwyno beth yw eu gweithdrefnau a sut y bydd cwynion yn cael eu cofnodi a'u hymchwilio iddynt.
- methu ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i ddod â'r ymddygiad dan reolaeth neu ystyried yr holl sancsiynau cyfreithiol y gellid eu defnyddio.
- methu gweithio gydag asiantaethau eraill fel yr heddlu i geisio datrys y problemau.
- methu cynnig cymorth i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, eu diweddaru ynghylch beth sy'n digwydd neu fethu ystyried cymryd camau i'w cadw'n ddiogel.
- methu delio â'r person sy'n achosi'r broblem, yn brydlon. Credwn y dylid datrys y rhan fwyaf o achosion o fewn tri mis ond dylid rhoi blaenoriaeth uwch i achosion sy'n cynnwys cam-drin hiliol neu fygythiadau corfforol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- fel rheol, edrych ar fethiannau a ddigwyddodd fwy na deuddeng mis yn ôl a lle mae'r niwsans wedi dod i ben.

- edrych ar bryderon sydd efallai gennych ond nad ydych wedi eu dwyn at sylw'r corff cyfrifol eto. Dylech roi cyfle i'r cyngor neu'r gymdeithas dai ddatrys pethau cyn ichi gwyno i ni.

Materion i gadw mewn cof

Mae'n syniad da cadw cofnod o bryd y dechreuodd y niwsans, sut niwsans ydoedd a phryd ichi ddwyn y problemau hyn at sylw'r corff cyfrifol ynghyd ag unrhyw ohebiaeth a dderbynioch, gan gynnwys e-byst. Byddwn yn gofyn am y wybodaeth yma ac am eich hanes chi o ddigwyddiadau i benderfynu a ddylem ymchwilio i'ch cwyn neu beidio.

Gwybodaeth bellach

Mae nifer o gyrff sy'n rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus ar sut i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dyma rai o'r prif gyrff:

- y Swyddfa Gartref, sydd â gwybodaeth ar ddwy o'i gwefannau:

  http://www.homeoffice.gov.uk/anti-social-behaviour/

  a

  http://www.respect.gov.uk/

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/crimereduction/antisocial/?lang=en
- Y Sefydliad Tai Siartredig: http://www.cih.org/

  a

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: http://www.wlga.gov.uk/english/Anti-Social-Behaviour

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ